# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Mawrth 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

2.1 **SL(6)454 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024**

(Tudalennau 1 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

2.2 **SL(6)455 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 4 - 9)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-08-24 – Papur 3 – Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 6 Chwefror 2024

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.3 SL(6)456 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 10 – 14)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 4 – Adroddiad drafft

**2.4 SL(6)457 – Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 15 – 18)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 5 – Adroddiad drafft

**2.5 SL(6)458 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 19 – 21)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 6 – Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(13.35 – 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)440 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 22 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 7 - Adroddiad

LJC(6)-08-24 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Chwefror 2024

LJC(6)-08-24 – Papur 9 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Chwefror 2024

**3.2 SL(6)453 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 28 - 30)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 10 - Adroddiad

LJC(6)-08-24 – Papur 11 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 - 13.45)

**4.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol**

(Tudalen 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 12 – Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 26 Chwefror 2024

**4.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 32 - 35)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 13 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Chwefror 2024

LJC(6)-08-24 – Papur 14 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 27 Chwefror 2024

**4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024**

(Tudalen 36)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 15 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 27 Chwefror 2024

**4.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024**

(Tudalennau 37 - 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 16 – Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 29 Chwefror 2024

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 - 13.50)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.50)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw): Adroddiad drafft

(13.50 - 14.05) (Tudalennau 39 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 17 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 8 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau: Adroddiad drafft

(14.05 - 14.20) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 – Papur 18 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cerbydau Awtomataidd

(14.20 - 14.30) (Tudalennau 48 - 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-08-24 - Papur 19 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 10 Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi – Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithredu a Chydsyniad Deddfwriaethol: Trafodaeth

(14.30 - 14.35)

Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithredu a Chydsyniad Deddfwriaethol – Cais am dystiolaeth

# SL(6)454 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ("y cyd-bwyllgor"), gan gynnwys ei weithdrefnau a'i drefniadau gweinyddol.

Bydd y cyd-bwyllgor yn disodli Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Mae Cyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024, a wnaed ar 6 Chwefror 2024, yn darparu y bydd Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn gweithio ar y cyd i arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a sicrhau gwasanaethau penodol. Er mwyn arfer y swyddogaethau hynny ar y cyd, bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn sefydlu'r cyd-bwyllgor i fod yn weithredol ar 1 Ebrill 2024.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer—

(a) cyfansoddiad ac aelodaeth y cyd-bwyllgor (rheoliad 3),

(b) penodi cadeirydd ac aelodau nad ydynt yn swyddogion i'r cyd-bwyllgor (rheoliad 4 ac Atodlen 1),

(c) y gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau o'r cyd-bwyllgor (rheoliad 5 ac Atodlen 2),

(d) deiliadaeth swydd, terfynu penodiad ac atal dros dro aelodau o'r cyd-bwyllgor (rheoliadau 6 i 9), ac

(e) penodi is-gadeirydd y cyd-bwyllgor a'i bwerau (rheoliadau 10 i 12).

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheolau sefydlog ynghylch rheoleiddio cyfarfodydd a thrafodion y cyd-bwyllgor.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu dwy set o Reoliadau.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan

fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, mae'r term "aelod nad yw'n swyddog" wedi'i ddiffinio ar gyfer y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r un term wedi'i ddiffinio'n wahanol ym mharagraff 4(6) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, at ddibenion paragraff 4(5)(a) o'r Atodlen honno. Felly, dylai'r diffiniad o "aelod nad yw'n swyddog" yn rheoliad 2 esbonio i'r darllenydd nad yw'n gymwys i baragraff 4(5)(a) o Atodlen 2.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "corff gwasanaeth iechyd", mae nifer o gyrff wedi'u rhestru ond nid yw eu hystyr wedi'i ddiffinio ar gyfer y Rheoliadau hyn ac eithrio "Bwrdd Iechyd Lleol". Y cyrff a restrir heb ystyr diffiniedig yw GIG Lloegr, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, Awdurdod Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaeth y GIG ac Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 2, yn is-baragraff (2), mae'r geiriau agoriadol yn datgan "At ddibenion yr is-baragraff hwn…". Fodd bynnag, ymddengys mai'r bwriad yw diffinio ystyr y dyddiad euogfarn ar gyfer is-baragraff (1) ym mharagraff 2 o Atodlen 2. Felly, dylai ddatgan "At ddibenion is-baragraff (1)…" fel bod ystyr y dyddiad euogfarn yn gymwys i is-baragraff (1) o baragraff 2 yn Atodlen 2 (gweler paragraff 6(2) o Atodlen 2). i'r Rheoliadau hyn fel enghraifft sydd wedi'i drafftio'n gywir).

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraffau 4(5)(a) a (d), a 5(b), mae'r term "Bwrdd Gofal Integredig" wedi'i ddefnyddio ond nid yw ei ystyr wedi'i ddiffinio at ddibenion y paragraffau hynny yn yr Atodlen honno.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6(1)(a), mae'n cyfeirio at "Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 11 o'r Ddeddf". Fodd bynnag, mae'r term "Bwrdd Iechyd Lleol" eisoes wedi'i

ddiffinio i olygu “Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o’r Ddeddf” yn rheoliad 2 o’r Rheoliadau hyn. Felly, mae’r geiriau ychwanegol ym mharagraff 6(1) o Atodlen 2 yn ddiangen, ond maent hefyd ychydig yn wahanol i’r diffiniad a geir yn rheoliad 2.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Ym mharagraff 6(1)(b) ac (c) o Atodlen 2, rhoddir ystyr i’r termau “ymddiriedolaeth y GIG” ac “Awdurdod Iechyd Arbennig” i’r paragraff hwnnw fel rhai a sefydlwyd o dan adrannau 18 a 22 yn y drefn honno o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (“y Ddeddf”). Fodd bynnag, mae’r termau hyn hefyd yn cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o’r Rheoliadau hyn ond nid ydynt wedi’u diffinio yn rheoliad 2. Felly, nid roddwyd ystyr iddynt ar gyfer darpariaethau eraill y Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o “y cyd-bwyllgor”, cyfeirir at Gyfarwyddydau Cyd-bwyllgor Comisiynu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2024 ond nid yw’n ymddangos eu bod wedi’u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gall y ffaith nad yw’r Cyfarwyddydau hyn ar gael atal y cyhoedd rhag cael mynediad at gyfraith berthnasol yn y maes hwn. Yn ogystal, dylai fod troednodyn gyda'r rhif “LlC” ar gyfer y Cyfarwyddydau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r pwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**26 Chwefror 2024**

# SL(6)455 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau Terfynau Ffioedd a Benthyciadau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 ("**Rheoliadau 2015**"),

(b) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 ("**Rheoliadau 2017**"), ac

(c) Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 ("**Rheoliadau 2018**").

Mae Rheoliadau 2015 yn rhagnodi uchafswm y ffioedd dysgu y gall sefydliadau a chanddynt gynllun ffioedd a mynediad ei godi am gyrsiau israddedig llawnamser (ac uchafsymiau is mewn cysylltiad â chyrsiau penodol). Mae rheoliadau 3 i 6 yn diwygio Rheoliadau 2015 i gynyddu'r symiau hynny ar gyfer blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2024.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y crynodeb a ganlyn o'r capiau ffioedd dysgu diwygiedig:

| | Presennol | Newydd |
|---|---|---|
| Myfyriwr israddedig llawnamser | £9,000 | £9,250 |
| Blwyddyn olaf cyrsiau penodol | £4,500 | £4,625 |
| Blynyddoedd academaidd sy'n flynyddoedd lleoliad gwaith/rhyngosod | £1,800 | £1,850 |
| Blynyddoedd academaidd cyrsiau a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor | £1,350 | £1,385 |

Mae Rheoliadau 2017 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau cyn 1 Awst 2018. Mae rheoliad 7 yn gwneud cywiriadau i Reoliadau 2017.

Mae Rheoliadau 2018 yn darparu ar gyfer cymorth ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau 2018 i gynyddu uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael i gategorïau penodol o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau gyda darparwyr arferol yng Nghymru, sy'n cyfateb i'r uchafswm uwch o ran ffioedd dysgu y cyfeirir ato uchod.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 16(1), 19(1) ac 20(1) o Reoliadau 2017. Mae'r rheoliadau hynny'n gwneud darpariaeth i fyfyrwyr penodol fod yn gymwys i gael grantiau neu fenthyciadau at ffioedd mewn cysylltiad â'u presenoldeb ar gyrsiau dynodedig a ddarperir gan y cyrff a restrir yn rheoliad 5(1)(e) o Reoliadau 2017. Mae rheoliad 7 yn diwygio'r cyfeiriadau at y darparwyr hynny i gynnwys y cyrff a restrir yn rheoliad 5(1)(ea) o Reoliadau 2017 hefyd.

Disgrifir y diwygiadau a wneir gan reoliad 7 yn y nodyn esboniadol i'r Rheoliadau fel "cywiriadau". Nid oes cyfeiriad pellach at y diwygiadau hyn yn y Memorandwm Esboniadol ac nid yw'r rheswm dros wneud y diwygiadau hyn yn glir ar unwaith.

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro diben y diwygiadau i Reoliadau 2017 a wneir gan reoliad 7.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 8 yn diwygio Rheoliadau 2018 i gynyddu uchafswm y benthyciad at ffioedd dysgu sydd ar gael i gategorïau penodol o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsiau yng Nghymru.

Yn y diwygiadau a wneir gan reoliad 8, nodir eu bod yn ymwneud â blwyddyn academaidd "*Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1* ***Medi*** *2024*". Fodd bynnag, mae'r nodyn esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn nodi bod y cynnydd "*mewn cysylltiad â blynyddoedd academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1* ***Awst*** *2024*".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro'r cyfnod y mae'r benthyciadau uwch perthnasol yn gymwys iddo.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni fu unrhyw ymgynghori mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Yn y Memorandwm Esboniadol, dywed Llywodraeth Cymru:

> *"Mae cynyddu gwerth y capiau ffioedd dysgu hyn yn ymateb uniongyrchol i'r pwysau chwyddiant parhaus a brofir gan ddarparwyr rheoleiddiedig. Mae'r rhain bellach yn rhy daer i'w hanwybyddu, yn enwedig felly pan fo cyllideb Llywodraeth Cymru dan bwysau eithriadol ac opsiynau eraill yn gyfyngedig. Er mwyn rhoi'r terfynau ffioedd newydd hyn ar waith cyn gynted â phosibl, a chaniatáu i ddarparwyr ddechrau cynyddu eu ffioedd a lleihau'r pwysau ariannol arnynt, penderfynwyd eu cyflwyno ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 sy'n dechrau ar 1 Awst 2024. Roedd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i ddeddfu ar gyfer y newid hwn, o ystyried amseriad lansio gwasanaeth ymgeisio Cyllid Myfyrwyr Cymru ar gyfer israddedigion ym mis Mawrth 2024, yn golygu na fu modd cynnal ymgynghoriad."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**28 Chwefror 2024**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Terfynau ffioedd dysgu a chymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2024/25** |
| **DYDDIAD** | **06 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** |

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson o ran yr egwyddor mai cefnogi myfyrwyr gyda chostau byw o ddydd i ddydd yw ein prif flaenoriaeth wrth sicrhau bod pawb, beth bynnag eu cefndir, yn gallu cael mynediad i brifysgol. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn parhau i gynnig y lefel uchaf yn y DU o gymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr, o bell ffordd. Cynyddodd y cymorth a ddarperir i bob myfyriwr israddedig yn sylweddol ym mlwyddyn academaidd 2023/24 i adlewyrchu'r heriau a oedd yn wynebu myfyrwyr yn ystod yr argyfwng costau byw. Er gwaethaf cyfyngiadau sylweddol ar y gyllideb eleni, gallaf gadarnhau y bydd y cymorth yn cynyddu unwaith eto ar gyfer pob myfyriwr israddedig cymwys ym mlwyddyn academaidd 2024/25.

Bydd y cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig cymwys o Gymru yn cynyddu 3.7%. Bydd y gyfradd uwch hon o gymorth ar gael i fyfyrwyr newydd. Bydd hefyd ar gael i'r rhai sy'n parhau ar gwrs a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Yn ogystal, bydd amrywiaeth o grantiau a lwfansau eraill hefyd yn cael eu cynyddu ar gyfer 2024/25, fel sy'n digwydd bob blwyddyn. Dylai pawb, beth bynnag eu cefndir, allu fforddio addysg uwch.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd ym mhob maes eleni yng nghyd-destun y pwysau sy'n parhau o ran chwyddiant a chyllidebau. Nid yw addysg uwch yn ddim gwahanol. Fy mwriad drwy gydol y cylch cyllidebol drafft diweddaraf yw gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu'r cymorth cynhaliaeth a ddarparwn i israddedigion. Fodd bynnag, mae penderfyniadau anodd eraill wedi'u gwneud er mwyn cefnogi hyn.

Rydym wedi ymwrthod â galwadau i godi lefel y cap ar ffioedd dysgu yn y gorffennol, ond mae'r pwysau parhaus yn sgil chwyddiant ar ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru yn golygu nad oes modd osgoi cynnydd erbyn hyn. Bydd y cap ar ffioedd dysgu - sef yr uchafswm y gall darparwyr a reoleiddir ei godi ar rai myfyrwyr ar rai cyrsiau israddedig amser llawn - yn codi o £9,000 i £9,250. Bydd y cynnydd yn lefel y

cap ddim ond i'r un lefel ag a godir eisoes gan ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban eisoes yn talu'r lefel ffioedd hon, ac felly ni fyddan nhw'n gweld unrhyw newid.

Bydd y newid hwn yn darparu cyllid ychwanegol i brifysgolion a darparwyr eraill yng Nghymru, gan helpu i ddiogelu'r ddarpariaeth a buddsoddiad ym mhrofiad myfyrwyr. Bydd y cap uwch ar ffioedd dysgu yn berthnasol i unrhyw fyfyriwr cymwys sy'n astudio yng Nghymru, nid dim ond i fyfyrwyr o Gymru.

Rwy’n cydnabod y bydd myfyrwyr wedi’u siomi efallai gan hyn. Byddaf yn cynyddu'r benthyciad ffioedd dysgu i hyd at £9,250 ar gyfer myfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio yng Nghymru (ac ar gyfer rhai myfyrwyr eraill sy'n astudio yma). Mae hyn yn parhau â'r polisi hirsefydlog o sicrhau nad yw'r un myfyriwr yn gorfod talu ei ffioedd dysgu ymlaen llaw.

Ni fydd y newidiadau mewn terfynau ffioedd yn golygu cynnydd yn ad-daliad misol myfyrwyr. Nid ydynt chwaith yn effeithio ar ein polisi o ganslo rhan o ddyledion – hyd at £1,500 – pan fydd myfyriwr yn dechrau ad-dalu ei fenthyciadau. Mae hyn yn unigryw i fyfyrwyr o Gymru, ble bynnag y maent yn astudio.

Y cynnydd hwn o 2.8% yn y cap ar ffioedd dysgu yw'r cyntaf ers 2011. Cynyddodd prisiau (fel y'u mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr sy'n cynnwys costau tai) 29% rhwng 2011 a 2022. Mae'r cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig Cymru wedi tyfu 39% ers cyflwyno diwygiadau Diamond yn 2018.

Mater i ddarparwyr addysg uwch yw penderfynu ar y ffioedd dysgu i'w codi ar fyfyrwyr. Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu'r ffioedd, dim ond yr uchafswm y ceir ei godi mewn rhai amgylchiadau. Dylai myfyrwyr siarad â'u prifysgol neu eu darparwr am eu ffioedd.

Nid yw ffioedd dysgu ar gyfer astudiaethau israddedig rhan-amser ac ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig yn cael eu rheoleiddio. Ni wneir newidiadau mewn perthynas â'r rheini felly.

Rydym wedi gwneud y penderfyniad anodd y bydd grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd i fyfyrwyr meistr ôl-raddedig nawr yn cael eu disodli'n llawn gan fenthyciadau myfyrwyr ad-daladwy. Bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr newydd yn 2024/25. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru unwaith eto yn cynyddu uchafswm gwerth y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr meistr newydd ym mlwyddyn academaidd 2024/25 yn unol â mesur o chwyddiant. Bydd cyfanswm y cymorth yn cynyddu 0.9%. Mae'r benthyciad sydd ar gael yn llawer mwy hael na'r hyn a ddarperir yn Lloegr. Bydd y benthyciad sydd ar gael i gefnogi astudiaethau doethurol hefyd yn cynyddu cymaint â hyn.

Yn ogystal, gwnaed y penderfyniad i ailflaenoriaethu ein cyllid ar gyfer bwrsariaethau cymhelliant ôl-raddedig i ddiogelu cyllid addysg craidd. Caiff hyn ei gadarnhau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ddiweddarach eleni. Rydym yn parhau i

ddarparu cymorth grant cynhaliaeth a benthyciadau ffioedd dysgu i'r rhai dros 60 oed sy'n dymuno dilyn astudiaethau israddedig am y tro cyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid i'r rhai sy'n dilyn cwrs addysg uwch am y tro cyntaf. Bydd cymorth cynhaliaeth ar gyfer astudiaethau israddedig yn cynyddu unwaith eto. Rydym yn parhau i gynnig lefel uwch o gymorth i fyfyrwyr meistr ôl-raddedig na'r hyn sydd ar gael yn Lloegr i gydnabod y costau byw y mae myfyrwyr yn eu hwynebu. Bydd y cynnydd yn y ffioedd dysgu yn helpu prifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru i barhau i ddarparu addysg ragorol i'w myfyrwyr. Mae'r newidiadau hyn yn cydbwyso anghenion dyddiol myfyrwyr o Gymru â'n nod o sicrhau bod pawb a allai elwa o addysg uwch yn gallu gwneud hynny, a byddant yn sicrhau bod cymorth yn parhau i fod yn fforddiadwy yn y sefyllfa ariannol anodd iawn y mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu.

Eitem 2.3

# SL(6)456 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 (“y prif Reoliadau”). Diben y Rheoliadau hyn yw egluro’r rhaniad cyfrifoldebau rhwng perchnogion brand, pacwyr/llanwyr, mewnforwyr a pherchnogion cyntaf yn y DU adosbarthwyr, a gosod gofyniad ar Cyfoeth Naturiol Cymru i lunio canllawiau mewn cysylltiad â phecynwaith cartref a chyhoeddi rhestr o gynhyrchwyr mawr. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu nifer o ddiwygiadau amrywiol, gan gynnwys egluro brawddegau a diwygio gwallau teipograffyddol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 12 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 5(b) yn mewnosod diffiniad o “grŵp o gwmniau” yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau, sef y ddarpariaeth ddehongli ar gyfer termau sydd ag ystyr drwy gydol y Rheoliadau hynny. Dim ond yn rheoliad 11 o'r prif Reoliadau y defnyddir y diffiniad hwn ac mae rheoliad 11(9) yn datgan bod y diffiniadau at ddibenion y rheoliad hwnnw. Nid yw termau eraill sydd wedi'u diffinio o fewn darpariaeth ac a ddefnyddir yn y ddarpariaeth honno yn unig wedi'u cyfeirio yn y modd hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 5(c)(i) a (ii), dylai 'is-baragraff' fod yn 'baragraff' gan mai dyma'r adrannau cyntaf yn y diffiniad o “mewnforiwr”, yn hytrach nag adrannau o baragraff (1) o reoliad 2 o’r prif Reoliadau.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio’r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad newydd 7(3)(b)(i) a (ii), nid yw'r cyfeiriadau at "bodloni'r gofyniad ym mharagraff (i)" a "bodloni'r gofyniad ym mharagraff (ii)" yn dynodi lleoliad y paragraffau hynny yn y prif Reoliadau yn ddigonol. Dylent gyfeirio at baragraff (2)(b)(i) a pharagraff (2)(b)(ii) yn y drefn honno, i roi sicrwydd i'r darllenydd.

4. **Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad 7(6) newydd, darperir rhestr o sefydliadau a phersonau sydd i'w trin fel sefydliadau cyhoeddus at ddibenion rheoliad 7 a rheoliad 7A. Nid oes unrhyw gyfeiriad at y rhestr hon yn rheoliad 7A, a allai olygu nad yw'r darllenydd yn ymwybodol o sut i ddehongli 'sefydliadau cyhoeddus' wrth ddarllen rheoliad 7A ar ei ben ei hun.

5. **Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad 7(6) newydd, yn is-baragraff (a) yn y rhestr o sefydliadau a phersonau sydd i'w trin fel sefydliadau cyhoeddus ceir y term "ysgol, prifysgol, neu sefydliad addysgol arall". A all Llywodraeth Cymru ddarparu enghreifftiau o sefydliadau a fyddai'n dod o dan "sefydliad addysgol arall" ac egluro a yw'n ystyried ei bod yn ddigon clir i'r sefydliadau posibl hynny gael eu hadnabod at ddibenion rheoliad 7 a rheoliad 7A o'r prif Reoliadau.

6. **Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad 7(8) newydd, diffinnir y termau "bin cartref" a "bin cyhoeddus" ar gyfer rheoliad 7 a rheoliad 7A newydd o'r prif Reoliadau. Efallai na fydd y darllenydd yn ymwybodol o dermau sydd wedi'u diffinio mewn rheoliad blaenorol (gweler Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw 4.8(4), mewn perthynas â diffiniadau arfaethedig). Gofynnwn a ddylai'r termau fod wedi'u cynnwys fel diffiniadau cyffredinol yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau, fel sydd wedi'i wneud gyda thermau diffiniedig eraill a ddefnyddir mewn mwy nag un rheoliad.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**.

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "bin cyhoeddus", mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Ym mharagraff (ii) o'r diffiniad, mae'r testun Saesneg yn datgan "collect waste material" ond nid yw'n ymddangos ei fod yn gwneud synnwyr heb unrhyw eiriau ychwanegol. Mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu hyn fel "sydd wedi ei gynllunio i gasglu deunydd gwastraff" ("designed to collect waste material"). Yn hyn o beth, defnyddir yr ymadrodd "designed to collect waste material" yn y diffiniad o "household bin" yn nhestun Saesneg rheoliad newydd 7(8)(a). Felly, mae'n ymddangos mai'r testun Cymraeg sy'n rhoi'r diffiniad cywir o "bin cyhoeddus" a bod y geiriau "designed to" ar goll o destun Saesneg y rheoliad newydd 7(8)(b).

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**.

Yn rheoliad 9, yn rheoliad newydd 7A(2), yn is-baragraff (d), yn y testun Cymraeg, mae "consumer" wedi ei gyfieithu fel "defnyddiwr". Fodd bynnag, mae'r term "consumer" wedi'i ddiffinio yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau fel "treuliwr". Mewn rhan arall o'r prif Reoliadau, mae "defnyddiwr" wedi'i ddefnyddio fel cyfieithiad o "user" i wahaniaethu rhwng y term hwnnw a "treuliwr" ("consumer"). Felly, mae'r testun Cymraeg wedi methu â defnyddio'r term diffiniedig cywir ar gyfer "consumer" wrth gyfieithu'r ddarpariaeth hon.

**9. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 10(b) yn diwygio paragraff 2 o reoliad 8 o'r prif Reoliadau. Ceir cyfeiriad o hyd at "paragraff (4)" yn y paragraff hwnnw, sy'n cael ei hepgor gan reoliad 10(d) o'r Rheoliadau hyn.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

(i) Yn rheoliad 17, yn rheoliad newydd 17A(1), mae'n datgan "Pan fo gwybodaeth mewn adroddiad a gyflwynir gan gynhyrchydd ("CM") o dan reoliad 17…". Fodd bynnag, dylai nodi gan "gynhyrchydd mawr ("CM")" oherwydd mai dim ond "cynhyrchydd mawr ("CM")" sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau a geir yn rheoliad 17. Mae "cynhyrchydd" a "cynhyrchydd mawr" yn dermau diffiniedig a geir yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau, felly mae gwahaniaeth sylweddol drwy ddefnyddio "cynhyrchydd" yn hytrach na "cynhyrchydd mawr" yn rheoliad 17A(1) newydd.

(ii) Mae hyn hefyd yn digwydd yn rheoliad 19, yn rheoliad 22A newydd pan ddefnyddir "cynhyrchydd mawr" yn gywir ym mharagraff (1), ond defnyddir "cynhyrchydd" wedi hynny ym mharagraff (2) o'r rheoliad newydd hwnnw.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 20(e), mae'n datgan "ym mharagraff 17, ym mharagraffau (a) a (b)" ond dylai ddatgan "yn is-baragraffau (a) a (b)".

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 20(g) yn diwygio paragraff 20 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau. Mae is-baragraff (i) o reoliad 20(g) yn nodi 'ar ddiwedd y geiriau agoriadol', ond nid oes geiriau agoriadol i baragraff 20(a). Credwn y dylid dileu'r geiriau 'is-baragraff (a)' o'r geiriad sy'n rhagflaenu paragraff (i) gan ei bod yn ymddangos bod y gwelliant yn berthnasol i eiriau agoriadol paragraff 20, ac nid is-baragraff (a). At hynny, nid yw'r holl ddiwygiadau yn rheoliad 20(g) yn cael eu gwneud i destun yn is-baragraff (a) o baragraff 20 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**13. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gosod o dan adran 2(8) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ac felly maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae adran 2(9) o'r Ddeddf honno yn rhestru'r rheoliadau y mae is-adran (8) yn gymwys iddynt. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa baragraff o is-adran (9) y mae'n ystyried sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**14. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn perthynas ag ymgynghori, nodwn y canlynol ym mharagraff 16 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Bu gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol ar ôl i'r Prif Reoliadau gael eu cyflwyno, sydd wedi helpu i nodi'r diwygiadau i'r Rheoliadau hyn.*

Nodwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 2(4) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, y cyfeirir ato yn y rhagymadrodd i'r Rheoliadau.

**15. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir na chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Caiff y canlynol ei ddatgan ym mharagraff 17 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Cafodd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ei ystyried mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nid ystyrid bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision tebygol a fyddai'n deillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynllun EPR yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r diwygiadau i EPR, a bod y diwygiadau'n fach iawn.*

**16. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir bod y Gweinidog Newid Hinsawdd, mewn llythyr at y Pwyllgor hwn dyddiedig 16 Chwefror 2024, wedi hysbysu bod y Rheoliadau hyn yn dod o dan gwmpas y Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 i 14.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**28 Chwefror 2024**

# SL(6)457 – Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn gosod y safonau ansawdd y bydd gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu yn eu herbyn o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Bydd y Rheoliadau yn disodli'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a gafodd eu gwneud o dan adran 23(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig mewn perthynas â:

- datganiadau blynyddol;
- gofynion ar unigolion cyfrifol mewn perthynas â chydymffurfedd, ansawdd, ac adolygu'r gwasanaeth, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol;
- gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â llywodraethu, addasrwydd y gwasanaeth, gwybodaeth am y gwasanaeth, yr amgylchedd, staffio, hyfforddi staff a diogelu;
- hysbysiad os bydd darparwr gwasanaeth yn marw neu wedi ei ddatod; a
- throseddau a hysbysiadau cosb.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y naw pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Defnyddir y term "gofal a chymorth" ym mhob rhan o'r Rheoliadau. Mae Adran 4 o Ddeddf 2016 yn rhoi ystyron penodol i "gofal", "cymorth" a "gofal a chymorth", ond nid yw'r Rheoliadau yn rhoi ystyr penodol i'r term. Mae Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys

i'r Rheoliadau hyn felly nid yw termau a ddiffinnir yn Neddf 2016 yn dwyn yr un ystyr yn y Rheoliadau. Gofynnir am eglurhad ynghylch a fwriedir i'r term "gofal a chymorth" gael yr un ystyr ag yn Neddf 2016, ac os felly, pam nad yw hyn wedi'i nodi yn y Rheoliadau.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r rheoliadau'n defnyddio'r ymadrodd "contract ar gyfer gwasanaethau" yn rheoliad 1 a rheoliad 31 ond nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio. Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r term hwn yn ei gynnwys a sut y gellir ei wahaniaethu oddi wrth "gontract cyflogaeth" a ddefnyddir yn rheoliad 30 a rheoliad 31 ac sydd hefyd heb ei ddiffinio.

**3. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 1(3) yn diffinio tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 2 a pharagraff 3 o Atodlen 1. Mae'r geiriau "y dystysgrif" yn dynodi tystysgrif sengl ond mae paragraff 2 a pharagraff 3 yn cyfeirio at dystysgrifau gwahanol. Nid yw'n glir a yw'r ddwy dystysgrif yn dod o dan y diffiniad, ac os felly dylid defnyddio'r gair lluosog, neu a ddylid diffinio'r tystysgrifau ar wahân.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 1(3), yn y diffiniad o "unigolyn" ("individual"), defnyddiwyd yr ymadrodd "oni noda'r cyd-destun yn wahanol fel arall". Fodd bynnag, mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, sef Drafftio deddfau i Gymru, paragraff 4.8(5), yn nodi nad yw, yn gyffredinol, yn ddefnyddiol i'r darllenydd os defnyddir geiriad tebyg, ac y dylid ei egluro ble mae'r diffiniad yn gymwys neu'n anghymwys. Byddai rhagor o esboniad o gymorth felly yn hyn o beth.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 1(3), diffinnir "canlyniadau personol" ar gyfer plentyn fel y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni, neu'r canlyniadau y mae unrhyw bersonau sydd â chyfrifoldeb rhiant amdano yn dymuno eu cyflawni mewn perthynas â'r plentyn. Mae'n bosibl na fyddai dymuniadau'r plentyn a/neu'r un neu fwy o bobl â chyfrifoldeb rhiant amdano yr un peth, felly byddai o gymorth i gael eglurhad ynghylch sut y byddai canlyniadau personol y plentyn yn cael eu pennu mewn amgylchiadau o'r fath.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 47 yn ymdrin â chyflenwadau, ond nid yw'r gair hwn wedi'i ddiffinio ac nid oes dim rhagor o wybodaeth am beth mae "cyflenwadau" yn ei gynnwys. Byddai o gymorth i'r darllenydd gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae "cyflenwadau" yn ei gynnwys.

7. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 79(3)(b) yn darparu ar gyfer addasiad i adran 21(2) o Ddeddf 2016. Nid yw geiriad rhagarweiniol yr addasiad yn rheoliad 79(3)(b) yn gwneud synnwyr. Mae'n ymddangos ei fod yn bwriadu dweud "fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl (a)", neu eiriau i'r perwyl hwnnw.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;**

Yn rheoliad 82(a), yn y testun Cymraeg, mae'r gwelliant yn anghywir oherwydd ei fod yn methu â nodi'n gywir destun y diffiniad o'r "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019.

Yn y testun Cymraeg, mae'r gwelliant yn nodi y dylid mewnosod y diffiniad newydd o'r "Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig" yn rheoliad 2 ar ôl "ystyr" "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" ("the Adoption Services Regulations") yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;"

Fodd bynnag, dylai'r geiriau Saesneg mewn cromfachau ac italig nodi "("the Fostering Services Regulations")" fel y'u ceir yn nhestun Cymraeg presennol y diffiniad o "the Fostering Services Regulations" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2019, yn hytrach na "("y Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu")".

Yn ogystal, byddai'n fwy arferol disgrifio lleoliad y gwelliant drwy ddatgan, "ar ôl y diffiniad o "y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu" mewnosoder…." yn hytrach na dyfynnu testun cyfan y diffiniad hwnnw.

9. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 17 a pharagraff 35 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i wneud hysbysiad ynghylch "unrhyw niwed pwyso categori 3 neu 4 neu niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam". Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â chategoreiddio niwed pwyso na beth sy'n gyfystyr â niwed pwyso nad oes modd ei osod ar unrhyw gam. Byddai gwybodaeth o'r fath yn helpu'r darllenydd i ddeall y gofynion o ran hysbysiadau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**28 Chwefror 2024**

# SL(6)458 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (y "**DTGT**") yn sefydlu ac yn nodi'r fframwaith a'r trefniadau gweithredol ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi ("**TGT**"), a ddisodlodd dreth dirlenwi y DU yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau anawdurdodedig ar gyfer TGT, a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2024 neu wedi hynny.

Dyma'r cyfraddau o 1 Ebrill 2024 ymlaen:

- Y gyfradd safonol yw **£103.70** y dunnell (wedi'i chynyddu o £102.10 y dunnell),
- Y gyfradd is yw **£3.30** y dunnell (wedi'i chynyddu o £3.25 y dunnell)
- Y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yw **£155.55** y dunnell (wedi'i chynyddu o £153.15 y dunnell).

Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2023 neu wedi hynny ond cyn 1 Ebrill 2024 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfraddau a bennir yn Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022.

Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (y '**DCRhT**') yn gwneud darpariaeth ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Tabl A1 yn adran 122(3) o DCRhT i amnewid croesgyfeiriad rhif anghywir at ddarpariaethau yn y DTGT.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae adran 25 o DCRhT yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru ("**ACC**") dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru. ACC sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r tair cyfradd ar gyfer TGT yng Nghymru.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Adran 122 o DCRhT yn gwneud person yn agored i gosb am dalu treth ddatganoledig yn hwyr. Darperir ar gyfer cosbau am dalu'n hwyr o ran TGT a godir ar warediadau sydd heb eu hawdurdodi drwy gyfeirio at eitem 10 o Dabl A1 yn adran 122(3), sy'n disgrifio taliadau o'r fath fel:

> *"Swm a godir gan hysbysiad codi treth a ddyroddir o dan **adran 48 neu 49** o DTGT."* ***[ychwanegwyd y pwyslais]***

Mae Adran 48 o'r DTGT yn cynnwys y pŵer i gyhoeddi hysbysiad rhagarweiniol (sy'n nodi pam mae ACC o'r farn bod trethdalwyr yn agored i dalu'r dreth gwarediadau tirlenwi ar y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi). Nid yw'n cynnwys y pŵer i ddyroddi hysbysiad codi treth. Caniateir i drethdalwyr, sydd wedi cael hysbysiad rhagarweiniol o dan adran 48 gyflwyno sylwadau i ACC ynghylch pam nad yw TGT yn ddyledus cyn i ACC benderfynu a ddylid codi treth. Mae adran 49 yn cynnwys y pŵer i ACC ddyroddi hysbysiad codi treth yn dilyn yr hysbysiad rhagarweiniol. Mae adran 50 yn caniatáu i ACC ddyroddi hysbysiad codi treth heb ddyroddi hysbysiad rhagarweiniol yn gyntaf mewn amgylchiadau os yw ACC yn credu bod treth yn debygol o gael ei cholli pe bai'n mynd yn ei flaen o dan adrannau 48 a 49.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r cyfeiriad at adran 48 neu 49 o'r DTGT yn eitem 10 o Dabl A1 fel ei fod yn hytrach yn cyfeirio at hysbysiadau codi tâl a ddyroddir o dan **adran 49 neu 50** o'r DTGT.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn nodi (ym mharagraff 4.15):

> *"Mae'n ymddangos bod y gwall hwn wedi digwydd pan ychwanegwyd adran newydd yn y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi yn ystod Cyfnod 3 (gan ddod yn adran 25) 5 gan*

*ailrifo holl adrannau dilynol y Bil. Cafodd yr angen i ddiweddaru eitem 10 yn Nhabl A1 i adlewyrchu ailrifo'r adrannau ei esgeuluso. Os na chaiff y gwall ei gywiro, ni fydd ACC yn gallu codi cosb am daliadau hwyr am dreth a godir yn unol â hysbysiadau codi treth a ddyroddir o dan adran 50 o Ddeddf TGT...".*

Gofynnir felly i Lywodraeth Cymru gadarnhau'r canlynol:

1. a yw wedi nodi unrhyw ddarpariaethau eraill yn y DTGT a allai fod angen eu diwygio o ganlyniad i fewnosod adran 25 o'r DTGT yng Nghyfnod 3 y Bil TGT;
2. a yw ACC wedi gosod unrhyw gosbau talu hwyr ar drethdalwyr mewn cysylltiad â hysbysiadau a ddyroddwyd o dan adran 50 o'r DTGT;
3. a gafodd unrhyw symiau a adferwyd gan ACC mewn perthynas â chosbau o'r fath eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru;
4. a yw wedi dod i'r casgliad bod unrhyw gosbau o'r fath wedi'u gosod yn anghyfreithlon o ganlyniad i'r gwall a nodwyd yn adran 122 o DCRhT; ac, os felly,
5. a yw wedi cymryd, neu'n bwriadu cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad â'r cosbau hynny.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi unrhyw ddarpariaethau eraill yn y DTTT y mae angen eu diwygio o ganlyniad i fewnosod adran 25 o'r DTTT yng Nghyfnod 3 o'r Bil TTT.

Nid yw ACC wedi dyroddi unrhyw hysbysiadau eto o dan adran 50 o'r DTTT ac ni fydd yn gwneud hynny cyn i'r diwygiad hwn i'r DCRhT gymryd effaith. Felly, ni osodwyd ac ni osodir unrhyw gosbau am daliadau hwyr mewn cysylltiad â hysbysiadau sydd wedi eu dyroddi o dan adran 50 o'r DTTT cyn y diwygiad hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Chwefror 2024**

# SL(6)440 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ('Deddf 1986'), gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymddeol wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol ('TTA') am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y berthynas yr hawl i olynu i'r denantiaeth. Un o'r profion wrth sefydlu hawl olynu yw bodloni'r TTA nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" mewn man arall.  Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r berthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth yn awtomatig.

Mae'r Gorchymyn yn nodi ffigurau ar gyfer incymau amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amryfal weithgareddau ffermio ac fe'u defnyddir wrth benderfynu a yw'r tir dan sylw yn "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn ystod y cyfnod perthnasol.

Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. Mae'r Gorchymyn hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheolau Sefydlog 21.2(x): Ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth eu cyhoeddi neu wrth eu gosod gerbron y Senedd.**

Mae paragraffau 3 i 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r materion a ganlyn o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor hwn:

*"3. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf 1986 i Weinidogion Cymru ragnodi drwy Orchymyn, unedau cynhyrchu o'r fath sy'n ymwneud â thir amaethyddol yr ystyrir eu bod yn briodol, am gyfnod o ddeuddeng mis a bennir yn y gorchymyn.  Y Gorchymyn presennol sydd mewn grym yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023 sy'n cwmpasu'r*

*cyfnod rhwng 12 Medi 2022 a 11 Medi 2023. O ystyried na all y TTA benderfynu ar achosion olyniaeth berthnasol heb y ffigurau perthnasol, rhaid cael Gorchymyn Unedau Cynhyrchu i gwmpasu'r cyfnod o 12 mis rhwng 12 Medi 2023 a 11 Medi 2024.*

4. *Yn hanesyddol, mae Gorchmynion Unedau Cynhyrchu bob amser yn cynnwys elfen ôl-weithredol oherwydd mae'n dibynnu ar bryd mae'r ystadegau sylfaenol ar gael gan DEFRA, ac yna mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu trin er mwyn llunio'r ffigurau perthnasol ar gyfer Cymru. Nid oedd y ffigurau hyn ar gael tan 13 Medi 2023. (Ychwanegwyd pwyslais).*

5. *Mae achosion sydd wedi symud ymlaen i'r TTA ers 12 Medi 2023 wedi'u gohirio tan i'r Gorchymyn gael ei wneud. Ar hyn o bryd mae chwe chais a fyddai'n cael eu heffeithio gan Orchymyn newydd.*

6. *Bydd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys yn ôl-weithredol rhwng 12 Medi 2023 a dyddiad dod i rym y Gorchymyn. Caniateir hyn yn benodol gan baragraff 4b o Atodlen 6 i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 sy'n darparu y bydd y Gweinidog drwy orchymyn, am unrhyw gyfnod o 12 mis a bennir yn y gorchymyn, yn penderfynu mewn perthynas ag unrhyw unedau cynhyrchu rhagnodedig y swm sydd i'w ystyried fel yr incwm blynyddol net o'r uned honno yn y cyfnod hwnnw."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod sawl achos olyniaeth a ddygwyd gan unigolion ledled Cymru i bob pwrpas wedi'u gohirio ers mis Medi 2023 gan eu bod wedi gorfod aros am y ffigurau newydd a ddarperir gan y Gorchymyn hwn i ddatrys eu hawliadau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru aros am y data perthnasol gan DEFRA cyn i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio. Fodd bynnag, daeth y data hyn i law ar 13 Medi 2023. Nid yw'n glir pam mae pum mis arall wedi mynd heibio erbyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, ac yn ystod y cyfnod hwnnw nid yw unigolion wedi gallu bwrw ymlaen â'u hachosion olyniaeth.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

27 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror, ynghylch Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024.

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ynghylch amseriad gwneud a gosod y Gorchymyn hwn.

Gallaf gadarnhau na chafodd yr un o'r chwe chais a gyflwynwyd yn gofyn am Asesiad Incwm Blynyddol Net eu heffeithio'n andwyol gan amserlen y broses o wneud y Gorchymyn a dod ag ef i rym.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar gyfer dau o'r ceisiadau, oherwydd amseriad y ceisiadau am Asesiad Incwm Blynyddol Net gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol, roedd y Gorchymyn blaenorol yn dal i fod yn ddilys. Cafodd y pedwar arall eu hystyried gan y Barnwr penodedig. Cytunodd y ddwy ochr wedyn nad oedd angen Asesiad Incwm Blynyddol Net bryd hynny.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd:

7 Chwefror 2024

Annwyl Lesley,

Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

Yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024 (y Gorchymyn).

Byddwch yn ymwybodol bod ein hadroddiad ar y Gorchymyn yn cynnwys un pwynt technegol, a nododd fod nifer o achosion olyniaeth a ddygwyd gan unigolion ledled Cymru wedi'u gohirio ers mis Medi 2023 oherwydd y bu'n rhaid iddynt aros am y ffigurau newydd a ddarperir gan y Gorchymyn i ddatrys eu hawliadau.

Gwnaethom gydnabod, cyn i'r Gorchymyn gael ei ddrafftio, fod Llywodraeth Cymru yn aros am ddata perthnasol gan DEFRA. Fodd bynnag, fel y nodir ym Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn, cafodd Llywodraeth Cymru y data hwn ar 13 Medi 2023. Nid yw'n glir pam, erbyn yr adeg y daeth y Gorchymyn hwn i rym, y gadawyd i bum mis arall fynd heibio heb fod unigolion yn gallu bwrw ymlaen â'u hachosion olyniaeth.

Yn ein cyfarfod ar 5 Chwefror 2024, gwnaethom drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Gorchymyn. Dyma'r ymateb a gafwyd i'n pwynt adrodd technegol:

> *"Mae'r Llywodraeth wedi nodi pryderon y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Fodd bynnag, ni wnaeth Defra ddarparu'r data o ran Lloegr, sy'n llywio datblygiad y ddeddfwriaeth, tan 13 Medi 2023. Yna, defnyddiodd swyddogion Llywodraeth Cymru y data hyn i lunio'r ffigurau Cymreig perthnasol, gan gwblhau'r broses hon ar 18 Hydref 2023… Yna, mae'n rhaid i'r Gorchymyn fynd drwy'r broses graffu gyfreithiol arferol a all gymryd hyd at 12 wythnos. Gwnaed y*

*Gorchymyn ar 8 Ionawr ac fe'i gosodwyd ar 10 Ionawr 2024, cyn gynted ag y dychwelodd y Senedd ar ôl toriad y Nadolig."*

Efallai y byddwch yn gwerthfawrogi ein pryder fel Pwyllgor nad yw'r ymateb a gawsom ond yn rhoi amlinelliad sylfaenol o'r amserlen ar gyfer gwneud y Gorchymyn, tra mai'r hyn a geisiwyd wrth fynegi pryder yn ein hadroddiad oedd eglurhad o'r ffordd y gallai'r oedi fod wedi effeithio ar y bobl y mae eu hawliadau wedi'u gohirio. Ym Memorandwm y Gorchymyn, mae'r Gweinidog yn nodi bod chwe chais y byddai Gorchymyn newydd yn effeithio arnynt, fel ar 10 Ionawr 2024.

O ran yr amserlen a ddisgrifir yn ymateb Llywodraeth Cymru, nid yw'n glir inni pam y cymerodd y "broses graffu gyfreithiol arferol" bron 11 wythnos. At hynny, gyda phob parch, hoffem herio'r awgrym yn ymateb Llywodraeth Cymru ei bod wedi gorfod aros i'r Senedd ddychwelyd ar ôl y toriad cyn gosod y Gorchymyn. Fel y gŵyr y Gweinidog, caniateir i fusnes gael ei osod yn ystod y toriad.

Byddem yn croesawu eglurhad pellach o sut y ceisiodd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag unrhyw effaith bosibl ar y chwe chais a ohiriwyd yn sgil oedi wrth wneud y Gorchymyn, ac a yw'r nifer honno'n parhau'n gywir.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn dydd Iau 22 Chwefror 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Eitem 3.2

# SL(6)453 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793[1] yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu, mewn perthynas â Chymru, y rhestrau a nodir yn Atodiadau 1 a 2 o Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn rheolaidd o leiaf bob chwe mis, a hynny er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.

Mae'r adolygiad hwnnw wedi'i gynnal gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau bod nwyddau risg uwch yn parhau i fod yn destun rheolaethau uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs). Mae rheolaethau o'r fath yn cynnwys archwiliadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol gan gynnwys samplu mewn safleoedd rheoli ffiniau dynodedig.

Mae'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn cynnwys rhestrau o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid sydd naill ai'n destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol, yn destun mesurau brys neu'n destun ataliad mynediad i Brydain Fawr. Yn dilyn yr adolygiad, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i'r Atodiadau y gellir eu crynhoi'n fras fel a ganlyn:

- mae 2 nwydd wedi'u tynnu o gwmpas y rheolaethau;
- bydd 4 nwydd yn destun lefel is o reolaethau;
- bydd 3 nwydd yn destun lefel uwch o reolaethau;
- bydd 20 o nwyddau newydd yn destun rheolaethau am y tro cyntaf; ac
- mae codau 'CN' 10 o nwyddau newydd wedi cael eu diwygio.

[1] Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir (EU) 2019/1793 ar y cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n llywodraethu mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r UE.

Yn ogystal, mae'r offeryn yn mewnosod Atodiad 3a newydd yn Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 ac yn diwygio Erthyglau 4 a 10 o'r rheoliad hwnnw i bennu'r dull samplu a dadansoddi rhagnodedig ar gyfer rheoli presenoldeb *Listeria* mewn bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru a bydd rheoliadau cyfatebol yn cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban, sy'n golygu, unwaith y bydd deddfwriaeth yn ei lle i sicrhau bod defnyddwyr ym Mhrydain Fawr yn cael eu diogelu rhag bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd â'r risg uchaf trwy reolaethau ar ffin Prydain Fawr.

Dim ond trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau sydd eisoes wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs) yng Nghymru felly, ni all y nwyddau hyn, fel y maent ar hyn o bryd, gael eu mewnforio yn uniongyrchol i Gymru o drydydd gwledydd.

Yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, anfonwyd hysbysiad o'r diwygiadau arfaethedig at Sefydliad Masnach y Byd. Derbyniwyd dau sylw. Gofynnodd llywodraeth Twrci am eglurhad ar gnau cyll, a gofynnodd llywodraeth Unol Daleithiau America am fwy o dystiolaeth mewn perthynas â phast cnau daear.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, yn yr Atodiad 2 newydd i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793, yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Sudan (SD), yn yr ail golofn, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau Saesneg *"Groundnut flours and meals"* wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg fel *"Blawd a phrydau bwyd cnadaear"*. Fodd bynnag, ni ddylai'r geiriau hyn fod wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg oherwydd na wnaed Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn Gymraeg (gan nad yw'n un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd). Felly, dylai'r geiriau hynny ymddangos yn Saesneg yn fersiynau'r ddwy iaith o'r cofnod hwn ar gyfer Sudan yn yr Atodiad 2 newydd, fel y nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pwynt. Mae'r Llywodraeth o'r farn mai mân gamgymeriad yw hwn ac nad yw'n achosi unrhyw ddryswch o ran cwmpas y cofnod perthnasol yn Atodiad 2 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1973.

Mae adolygiad o Reoliad 2019/1973 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae offeryn statudol pellach wedi'i gynllunio a fydd yn amnewid Atodiad 2 wedi'i ddiweddaru i'r Rheoliad hwnnw; disgwylir i'r offeryn hwnnw gael ei wneud ym mhedwaredd chwarter 2024.

Am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu gadael yr offeryn fel y mae.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/54/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

26 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu bod chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC), a oedd i fod i gael ei gynnal ar 20 Chwefror 2024, wedi'i ohirio.

Byddwn yn rhoi gwybod ichi pan fydd dyddiad newydd wedi'i gadarnhau.

Byddaf yn anfon copi o’r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **27 Chwefror 2024** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yr Arglwydd Douglas-Miller i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig.

Gwnaed yr OS dan y teitl uchod gan y Gweinidog Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd o dan adran 14(2) a (3) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Mae'r OS yn ymwneud â chyflawni polisi'r DU a'r Llywodraethau Datganoledig fel y'i mynegwyd ym Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM), yn benodol mewn perthynas â chodi tâl o dan gyfundrefn rheolaethau swyddogol newydd y ffin ar gyfer gwiriadau iechydol a ffytoiechydol (SPS).

Ar 28 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU oedi o ran cyflwyno rheolaethau mewnforio pellach ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol o'r UE i Brydain Fawr, a'i bwriad i ddatblygu Model Gweithredu Targed y Ffin i nodi cyfundrefn newydd o reolaethau mewnforio'r ffin. Cyhoeddwyd y newidiadau arfaethedig i gyfundrefn rheolaethau swyddogol y ffin ar gyfer gwiriadau iechydol a ffytoiechydol ym Model Gweithredu Targed y Ffin ym mis Awst 2023. Bydd y gyfundrefn newydd hon yn berthnasol yn gyfartal i nwyddau'r UE a gweddill y byd, gyda dull gweithredu cymesur o ran rheolaethau sy'n seiliedig ar risg ac yn dechnolegol ddatblygedig.

Bydd Rheoliadau 2024 yn gweithredu cerrig milltir Model Gweithredu Targed y Ffin. Mae Rheoliadau 2024 yn hwyluso diwygiadau sydd eu hangen i alluogi taliadau a

ffioedd am reolaethau swyddogol ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol mewn modd sy'n adlewyrchu'r gyfundrefn newydd.

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 26 Chwefror 2024 i ddod i rym ar 30 Ebrill 2024.

**Unrhyw effaith y gallai'r Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Nid yw Rheoliadau 2024 yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt gan Lywodraeth y DU ar fioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw Rheoliadau 2024 yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Mae Rheoliadau 2024 (Rheoliad 2) yn gwneud darpariaeth i ymestyn yr amgylchiadau pan ganiateir i ffi neu dâl gael ei leihau neu ei hepgor am reolaethau swyddogol yn gyfan gwbl ac mae'n galluogi awdurdodau cymwys i gronni costau a threfniadau codi tâl at ddibenion ffioedd a thaliadau unffurf a godir. Yng Nghymru Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision o gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo rhesymeg glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod o ran newid polisi yn y dyfodol, cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol, cydgysylltu ar draws y DU, a chysondeb.

**Diben Rheoliadau 2024**

Diben Rheoliadau 2024 yw amddiffyn bioddiogelwch, sicrhau diogelwch bwyd a chefnogi masnach, drwy gyflwyno'r cerrig milltir a nodir ym Model Gweithredu Targed y Ffin, y cytunwyd arnynt gan bob gweinyddiaeth ym Mhrydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi diben, ac effaith Rheoliadau 2024 ar gael yma:

[The Official Controls (Fees and Charges) (Amendment) Regulations 2024 (legislation.gov.uk)]

**Pam y rhoddwyd cydsyniad?**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn o ganlyniad i'r cytundeb ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin rhwng y tair gweinyddiaeth ym Mhrydain Fawr i gyflwyno cyfundrefn iechydol a ffytoiechydol cydlynol a chyson ar gyfer nwyddau a fewnforir i Brydain Fawr i amddiffyn bioddiogelwch a sicrhau bod safonau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

27 Chwefror 2024

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024.**

Annwyl Huw

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch chi dyddiedig 21 Chwefror 2024. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ffioedd a Thaliadau) (Diwygio) 2024 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig y gellir dod o hyd iddo yn:

https://senedd.cymru/media/we4cj11m/ws-ld16362-w.pdf

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn er mwyn gweithredu targedau Model Gweithredu Targed y Ffin. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 26 Chewfror 2024 gyda dyddiad cychwyn o 30 Ebrill 2024.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

27 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024.

Derbyniais lythyr gan Ysgrifennydd Seneddol Swyddfa'r Cabinet, Alex Burghart AS ar 13 Chwefror 2024, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn.

Er mwyn gweithredu'r drefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 ("y Ddeddf"), mae angen gosod Rheoliadau Cychwyn o dan adran 127 o'r Ddeddf i ddod â darpariaethau penodol i rym. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y Rheoliadau Cychwyn hyn yn unol ag adran 127(3) o'r Ddeddf ac felly mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae angen i Weinidogion Cymru gydsynio i'r Rheoliadau Cychwyn hyn i ganiatáu i reoliadau o sylwedd gael eu gosod gerbron y Senedd.

Bydd Rheoliadau Cychwyn eraill a fydd yn cychwyn darpariaethau eraill yn Neddf Caffael 2023, a byddant yn sefydlu'r darpariaethau trosiannol a fydd yn pennu'r berthynas rhwng y cyfundrefnau caffael presennol a newydd. Bydd y Rheoliadau Cychwyn hyn hefyd yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru. Lle caiff cydsyniad ei roi i gychwyn darpariaethau eraill yn y Ddeddf, byddaf yn dal i hysbysu Senedd Cymru a’ch pwyllgor trwy’r broses datganiadau ysgrifenedig.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

29 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau'r Amgylchedd a Materion Gwledig (Dirymu a Darpariaeth Ganlyniadol) 2024 ("y Rheoliadau"). Gwneir y Rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ("Deddf REUL").

Bydd y Rheoliadau'n dirymu deddfwriaeth a nodwyd yn ddiangen ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, na chafodd ei chynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf REUL. Ni fydd dirymu'r offerynnau hyn yn cael unrhyw effaith ar bolisi yng Nghymru a bydd yn lleihau cymhlethdod diangen yn y llyfr statud.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod deddfwriaeth ddiangen yn cael ei dirymu'n gyfartal ar draws y cenhedloedd yr oeddent yn gymwys iddynt.

Bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 11 Mawrth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu'n debyg at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith a Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon